



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2015 Rhif 1757 (Cy. 242)

2015 No. 1757 (W. 242)

**PLANT A PHOBL IFANC,
CYMRU**

**CHILDREN AND YOUNG
PERSONS, WALES**

**Rheoliadau Plant (Perfformiadau a
Gweithgareddau) (Cymru) 2015**

**The Children (Performances and
Activities) (Wales) Regulations
2015**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae Rhannau 2 i 5 o'r Rheoliadau hyn yn nodi'r gofynion mewn perthynas â cheisiadau a wneir i awdurdodau lleol yng Nghymru am drwyddedau ar gyfer perfformiadau a gweithgareddau a roddir o dan adran 37 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963 ("Deddf 1963") a'r amodau sy'n gymwys i'r trwyddedau hynny, yn ogystal â gofynion sy'n gymwys i berfformiadau nad yw'n ofynnol cael unrhyw drwydded ar eu cyfer yn rhinwedd adran 37(3)(a) o Ddeddf 1963.

Parts 2 to 5 of these Regulations set out the requirements in relation to applications made to local authorities in Wales for, and the conditions that apply to, licences for performances and activities granted under section 37 of the Children and Young Persons Act 1963 ("the 1963 Act"), as well as requirements applicable to performances for which no licence is required by virtue of section 37(3)(a) of the 1963 Act.

Mae Rhan 6 o'r Rheoliadau hyn yn nodi gofynion mewn cysylltiad â thrwyddedau a roddir o dan adran 25 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 ("Deddf 1933") ar gyfer plant sy'n perfformio neu sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau dramor i wneud elw.

Part 6 of these Regulations sets out requirements in respect of licences granted under section 25 of the Children and Young Persons Act 1933 ("the 1933 Act") for children performing or taking part in activities abroad for profit.

Mae rheoliad 3 yn dirymu Rheoliadau Plant (Perfformiadau) 1968, a nifer o setiau o reoliadau diwygio, mewn cysylltiad â Chymru.

Regulation 3 revokes the Children (Performances) Regulations 1968, and a number of sets of amending regulations, in respect of Wales.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn cynnwys gwybodaeth am ofynion, o ran dogfennaeth, sy'n ymwneud â phob trwydded, pwerau awdurdodau lleol i osod amodau ar drwydded, cofnodion y mae'n rhaid iddynt gael eu cadw gan y deiliad trwydded a gofynion mewn cysylltiad â phryd y mae'n rhaid iddo ddangos y drwydded.

Part 2 of these Regulations includes information as to documentation requirements relating to all licences, the powers of local authorities to impose conditions on a licence, records that must be retained by the licence holder and requirements in respect of the production of the licence by that person.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn nodi gofynion cyffredinol mewn cysylltiad â phob perfformiad a gweithgaredd trwyddedig. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau ynghylch llesiant y plentyn, yn enwedig mewn perthynas â'u haddysgu, eu goruchwyllo a'u lletya yn ystod y cyfnod y mae'r drwydded yn gymwys iddo.

Part 3 of these Regulations sets out general requirements in respect of all licensed performances and activities. These include measures concerning the wellbeing of the child, in particular in relation to their education, supervision and accommodation during the period to which the licence applies.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn nodi gofynion sy'n gymwys i berfformiadau trwyddedig ac i berfformiadau y byddai'n ofynnol cael trwydded ar eu cyfer, oni bai am yr esemptiad o dan adran 37(3)(a) o Ddeddf 1963. Mae'r rhain yn cynnwys cyfyngiadau mewn perthynas ag oriau gweithio a seibiannau.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn yn nodi cyfyngiadau ac eithriadau pellach i'r rheolau yn Rhan 4, sy'n gymwys i berfformiadau trwyddedig yn unig. Mae'r rhain yn ymwneud ymhellach ag oriau gweithio a seibiannau ac yn caniatáu i awdurdodau lleol yng Nghymru a hebryngwyr arfer disgrisiwn o dan amgylchiadau penodol.

Mae Rhan 6 o'r Rheoliadau hyn yn nodi'r gofynion mewn perthynas â chynnwys trwyddedau a roddir o dan adran 25 o Ddeddf 1933 (yn caniatáu i blant berfformio neu gymryd rhan mewn gweithgareddau dramor i wneud elw), a'r wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu i Weinidogion Cymru o dan adran 25(8) o'r Ddeddf honno, er mwyn ei throsglwyddo i'r priod swyddog consylaidd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi drwy gysylltu â'r Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Part 4 of these Regulations sets out requirements that apply to licensed performances and to performances for which a licence would be required, but for the exemption under section 37(3)(a) of the 1963 Act. These include restrictions in relation to working hours and breaks.

Part 5 of these Regulations sets out further restrictions and exceptions to the rules in Part 4, which apply to licensed performances only. These further relate to working hours and breaks and allow local authorities in Wales and chaperones to exercise discretion in certain circumstances.

Part 6 of these Regulations sets out the requirements in relation to the content of licences granted under section 25 of the 1933 Act (permitting children to perform or take part in activities abroad for profit), and information that must be provided to the Welsh Ministers under section 25(8) of that Act, for transmission to the proper consular officer.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained by contacting the Education and Public Services Group, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

2015 Rhif 1757 (Cy. 242)

**PLANT A PHOBL IFANC,
CYMRU**

**Rheoliadau Plant (Perfformiadau a
Gweithgareddau) (Cymru) 2015**

Gwnaed 7 Hydref 2015
*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 9 Hydref 2015
Yn dod i rym 30 Hydref 2015

2015 No. 1757 (W. 242)

**CHILDREN AND YOUNG
PERSONS, WALES**

**The Children (Performances and
Activities) (Wales) Regulations
2015**

Made 7 October 2015
*Laid before the National Assembly for
Wales* 9 October 2015
Coming into force 30 October 2015

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 25(2) a 25(8) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933(1) ac adrannau 37(3), 37(4), 37(5), 37(6), 39(3) a 39(5) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963(2), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(3).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 25(2) and 25(8) of the Children and Young Persons Act 1933(1) and sections 37(3), 37(4), 37(5), 37(6), 39(3) and 39(5) of the Children and Young Persons Act 1963(2), and now vested in them(3).

-
- (1) 1933 p. 12; diwygiwyd adran 25(2) gan adran 10 o Ddeddf Cyflogaeth 1989 (p. 38) a rheoliadau 5(c) a (d) o O.S. 1998/276; diwygiwyd adran 25(8) gan reoliad 5(d) o O.S. 1998/276.
- (2) 1963 p. 37; diwygiwyd adran 37(3) gan adran 582(1) o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56) a rheoliad 12(4)(a), (b) ac (c) o O.S. 1998/276; diwygiwyd adran 37(4) gan reoliad 12(5)(a) a (b) o O.S. 1998/276; diwygiwyd adran 37(6) gan reoliad 12(6) o O.S. 1998/276; diwygiwyd adran 39(3) gan reoliad 14(3)(a) a (b) o O.S. 1998/276; a diwygiwyd adran 39(5) gan reoliad 14(4) o O.S. 1998/276.
- (3) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Breiniwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi hynny yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

-
- (1) 1933 c. 12; section 25(2) was amended by section 10 of the Employment Act 1989 (c.38) and regulations 5(c) and (d) of S.I. 1998/276; section 25(8) was amended by regulation 5(d) of S.I. 1998/276.
- (2) 1963 c. 37; section 37(3) was amended by section 582(1) of the Education Act 1996 (c.56) and regulation 12(4)(a), (b) and (c) of S.I. 1998/276; section 37(4) was amended by regulation 12(5)(a) and (b) of S.I. 1998/276; section 37(6) was amended by regulation 12(6) of S.I. 1998/276; section 39(3) was amended by regulation 14(3)(a) and (b) of S.I. 1998/276; and section 39(5) was amended by regulation 14(4) of S.I. 1998/276.
- (3) The functions of the Secretary of State so far as exercisable in relation to Wales transferred to the National Assembly for Wales under the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999. The functions of the National Assembly for Wales were then vested in Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

RHAN 1

Cyffredinol

PART 1

General

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015 a deuant i rym ar 30 Hydref 2015.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â'r canlynol—

- (a) rhoi trwyddedau mewn cysylltiad â phlant sy'n preswyllo yng Nghymru gan awdurdodau lleol yng Nghymru i gymryd rhan mewn perfformiadau neu weithgareddau ym Mhrydain Fawr, pan fo'n ofynnol gan adran 37(1) o Ddeddf 1963;
- (b) rhoi trwyddedau mewn cysylltiad â phlant nad ydynt yn preswyllo ym Mhrydain Fawr gan awdurdodau lleol yng Nghymru i gymryd rhan mewn perfformiadau neu weithgareddau ym Mhrydain Fawr, pan fo'r ceisydd am y drwydded yn preswyllo neu pan fo ganddo fan busnes o fewn ardal yr awdurdod lleol hwnnw, pan fo hynny'n ofynnol gan adran 37(1) o Ddeddf 1963;
- (c) perfformiadau yng Nghymru, nad yw'n ofynnol cael unrhyw drwydded ar eu cyfer yn rhinwedd adran 37(3)(a) o Ddeddf 1963;
- (d) rhoi trwyddedau gan ynadon heddwch yng Nghymru o dan adran 25 o Ddeddf 1933 i alluogi plant i gymryd rhan mewn perfformiadau neu weithgareddau dramor i wneud elw.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "awdurdod addysg" yr ystyr a roddir i "*education authority*" gan adran 135(1) o Ddeddf Addysg (Yr Alban) 1980(1);

ystyr "awdurdod lletyol" ("*host authority*") yw'r awdurdod lleol neu, yn yr Alban, yr awdurdod addysg y mae perfformiad neu weithgaredd yn digwydd yn ei ardal;

ystyr "awdurdod trwyddedu" ("*licensing authority*") yw'r awdurdod lleol y mae'r cais am drwydded wedi ei wneud iddo ac sy'n rhoi'r drwydded;

ystyr "Deddf 1933" ("*the 1933 Act*") yw Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933;

Title, commencement and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Children (Performances and Activities) (Wales) Regulations 2015 and they come into force on 30 October 2015.

(2) These Regulations apply in relation to—

- (a) the granting of licences in respect of children resident in Wales by local authorities in Wales to take part in performances or activities within Great Britain, where required by section 37(1) of the 1963 Act;
- (b) the granting of licences in respect of children not resident in Great Britain by local authorities in Wales to take part in performances or activities within Great Britain, where the applicant for the licence is resident or has a place of business within the area of that local authority, where required by section 37(1) of the 1963 Act;
- (c) performances in Wales, for which no licence is required by virtue of section 37(3)(a) of the 1963 Act;
- (d) the granting of licences by justices of the peace in Wales under section 25 of the 1933 Act to enable children to take part in performances or activities abroad for profit.

Interpretation

2. In these Regulations—

"the 1933 Act" ("*Deddf 1933*") means the Children and Young Persons Act 1933;

"the 1963 Act" ("*Deddf 1963*") means the Children and Young Persons Act 1963;

"activity" ("*gweithgaredd*") means taking part in a sport, or working as a model in the circumstances specified in section 37(1)(b) of the 1963 Act;

"chaperone" ("*hebyngwr*") has the meaning given in regulation 15(1);

(1) 1980 p. 44. Diwygiwyd y diffiniad hwn gan Ddeddf Llywodraeth Leol etc. (Yr Alban) 1994 (p. 39), Atodlen 13, paragraff 118(9).

ystyr “Deddf 1963” (“*the 1963 Act*”) yw Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963;

ystyr “deiliad trwydded” (“*licence holder*”) yw’r person y mae trwydded wedi ei rhoi iddo gan yr awdurdod trwyddedu;

ystyr “diwrnod” (“*day*”) yw cyfnod o bedair awr ar hugain gan ddechrau a dod i ben am hanner nos ac, at ddibenion rheoliad 30 a pharagraff 13 o Ran 2 o Atodlen 2, rhaid barnu bod unrhyw berfformiad sy’n digwydd ar ôl hanner nos a chyn yr awr gynharaf a ganiateir fel y’i diffinnir yn rheoliad 23 wedi digwydd cyn hanner nos;

ystyr “gweithgaredd” (“*activity*”) yw cymryd rhan mewn chwaraeon, neu weithio fel model o dan yr amgylchiadau a bennir yn adran 37(1)(b) o Ddeddf 1963;

mae i “hebryngwr” (“*chaperone*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 15(1);

ystyr “oedran gadael ysgol” (“*school leaving age*”) yw’r oedran pan fo person yn peidio â bod yn berson o oedran ysgol gorfodol yn unol ag adran 8(3) o Ddeddf Addysg 1996(1);

ystyr “rhiant” (“*parent*”) yw person sydd â chyfrifoldeb rhiant, fel y diffinnir “*parental responsibility*” yn adran 3 o Ddeddf Plant 1989(2), dros y plentyn o dan sylw;

ystyr “wythnos” (“*week*”) yw cyfnod o saith niwrnod gan ddechrau ar y diwrnod y mae’r perfformiad neu’r gweithgaredd cyntaf y mae’r drwydded wedi ei rhoi ar ei gyfer yn digwydd neu unrhyw seithfed diwrnod wedi hynny; ac

ystyr “ymarfer” (“*rehearsal*”), ac eithrio at ddibenion paragraff 15 o Ran 2 o Atodlen 2, yw unrhyw ymarfer ar gyfer, neu baratoad ar gyfer, perfformiad, a hwnnw’n ymarfer sy’n digwydd ar ddiwrnod y perfformiad neu yn ystod y cyfnod sy’n dechrau gyda’r perfformiad cyntaf ac yn dod i ben gyda’r perfformiad olaf.

“day” (“*diwrnod*”) means a period of twenty-four hours beginning and ending at midnight and, for the purposes of regulation 30 and paragraph 13 of Part 2 of Schedule 2, any performance taking place after midnight and before the earliest permitted hour as defined in regulation 23 shall be deemed to have taken place before midnight;

“education authority” (“*awdurdod addysg*”) has the meaning given by section 135(1) of the Education (Scotland) Act 1980(1);

“host authority” (“*awdurdod lletyol*”) means the local authority or, in Scotland, the education authority in whose area a performance or activity takes place;

“licence holder” (“*deiliad trwydded*”) means the person to whom a licence is granted by the licensing authority;

“licensing authority” (“*awdurdod trwyddedu*”) means the local authority to which the application for a licence is made and which grants the licence;

“parent” (“*rhiant*”) means a person who has parental responsibility, as defined in section 3 of the Children Act 1989(2), for the child in question;

“rehearsal” (“*ymarfer*”) means, other than for the purposes of paragraph 15 of Part 2 of Schedule 2, any rehearsal for, or preparation for, a performance, being a rehearsal which takes place on the day of the performance or during the period beginning with the first and ending with the last performance;

“school leaving age” (“*oedran gadael ysgol*”) means the age at which a person ceases to be of compulsory school age in accordance with section 8(3) of the Education Act 1996(3); and

“week” (“*wythnos*”) means a period of seven days beginning with the day on which the first performance or activity for which the licence is granted takes place or any seventh day after that.

Dirymiadau

3. Mae’r Rheoliadau a restrir yn Atodlen 1 wedi eu dirymu mewn cysylltiad â Chymru.

Revocations

3. The Regulations listed in Schedule 1 are revoked in respect of Wales.

(1) 1996 p. 56.
(2) 1989 p. 41.

(1) 1980 c. 44. This definition was amended by the Local Government etc. (Scotland) Act 1994 (c. 39), Schedule 13, paragraph 118(9).
(2) 1989 c. 41.
(3) 1996 c. 56.

RHAN 2

Y gofynion, o ran dogfennaeth, mewn perthynas â phob trwydded

Cais am drwydded

4.—(1) Rhaid i gais am drwydded—

- (a) cael ei wneud yn ysgrifenedig gan—
 - (i) y person sy'n gyfrifol am drefnu'r digwyddiad chwaraeon neu, yn ôl y digwydd, y person sy'n bwriadu cymryd y plentyn ymlaen fel model; neu
 - (ii) y person sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r perfformiad y mae'r plentyn i gymryd rhan ynddo;
- (b) cynnwys yr wybodaeth a bennir yn Rhannau 1 a 2 o Atodlen 2;
- (c) cael ei lofnodi gan y ceisydd a rhiant i'r plentyn; a
- (d) cynnwys gydag ef y ddogfennaeth a bennir yn Rhan 3 o Atodlen 2.

(2) Caiff yr awdurdod trwyddedu wrthod rhoi trwydded os na ddaw'r cais i law o leiaf un ar hugain o ddiwrnodau cyn y diwrnod y mae'r perfformiad neu'r gweithgaredd cyntaf, y gofynnir am y drwydded ar ei gyfer, i ddigwydd.

Amodau trwydded

5. Rhaid i'r awdurdod trwyddedu osod unrhyw amodau y mae'n barnu eu bod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau—

- (a) bod y plentyn yn ffit i gymryd rhan yn y perfformiad neu'r gweithgaredd;
- (b) bod darpariaeth briodol yn cael ei gwneud i sicrhau iechyd a llesiant y plentyn; ac
- (c) bod darpariaeth briodol yn cael ei gwneud i sicrhau na fydd addysg y plentyn yn dioddef.

6. Pan fo'r ceisydd yn gofyn am drwydded i blentyn gymryd rhan mewn gweithgaredd, perfformiad neu ymarfer penodol, ond nad yw'n gallu pennu'r dyddiadau pan fydd y plentyn yn cymryd rhan yn y gweithgaredd, y perfformiad neu'r ymarfer hwnnw adeg gwneud y cais, rhaid i'r awdurdod trwyddedu, os yw'n penderfynu rhoi'r drwydded, osod amod mai dim ond am nifer penodedig o ddiwrnodau o fewn cyfnod o chwe mis y caiff y plentyn gymryd rhan yn y gweithgaredd, y perfformiad neu'r ymarfer penodol hwnnw.

PART 2

Documentation requirements in relation to all licences

Application for licence

4.—(1) An application for a licence must—

- (a) be made in writing by—
 - (i) the person responsible for the organisation of the sporting event or, as the case may be, the person who proposes to engage the child as a model; or
 - (ii) the person responsible for the production of the performance in which the child is to take part;
- (b) contain the information specified in Parts 1 and 2 of Schedule 2;
- (c) be signed by the applicant and a parent of the child; and
- (d) be accompanied by the documentation specified in Part 3 of Schedule 2.

(2) The licensing authority may refuse to grant a licence if the application is not received at least twenty-one days before the day on which the first performance or activity, for which the licence is requested, is to take place.

Licence conditions

5. The licensing authority must impose any conditions which it considers necessary in order to ensure that—

- (a) the child is fit to take part in the performance or activity;
- (b) proper provision is made to secure the child's health and wellbeing; and
- (c) proper provision is made to ensure that the child's education will not suffer.

6. Where the applicant requests a licence for a child to take part in a particular activity, performance or rehearsal, but is unable to specify the dates upon which the child will take part in that activity, performance or rehearsal at the time of the application, if the licensing authority decides to grant the licence, it must impose a condition that the child may only take part in that particular activity, performance or rehearsal for a specified number of days within a six month period.

7.—(1) Pan fo'r awdurdod trwyddedu'n barnu bod yr wybodaeth a ddarparwyd gan y ceisydd yn annigonol i'w alluogi i benderfynu p'un a fydd yn dyroddi trwydded neu'n dyroddi trwydded yn ddarostyngedig i amodau, rhaid i'r awdurdod trwyddedu ofyn am wybodaeth neu ddogfennaeth ychwanegol i'w alluogi i wneud penderfyniad o'r fath.

(2) Yn benodol, caiff yr awdurdod trwyddedu—

- (a) gofyn bod y plentyn yn cael ei archwilio'n feddygol;
- (b) cyf-weld unrhyw athro preifat arfaethedig neu athrawes breifat arfaethedig;
- (c) cyf-weld y ceisydd, y plentyn, rhieni'r plentyn, neu'r hebryngwr arfaethedig, fel y bo'n briodol.

Ffurf trwydded

8.—(1) Rhaid i drwydded gynnwys—

- (a) enw'r plentyn;
- (b) enw rhieni'r plentyn;
- (c) enw'r ceisydd;
- (d) enwau, amserau, natur a lleoliad y gweithgaredd neu'r perfformiad (a lleoliad unrhyw ymarfer os yw'n wahanol) y mae'r drwydded wedi ei rhoi ar ei gyfer;
- (e) dyddiadau'r gweithgaredd, y perfformiad neu'r ymarfer, neu yn lle'r dyddiadau, nifer y diwrnodau pan fydd y plentyn yn cymryd rhan yn y gweithgaredd, y perfformiad neu'r ymarfer, a'r cyfnod, nad yw'n hwy na chwe mis, pan gaiff y gweithgareddau, y perfformiadau neu'r ymarferion ddigwydd yn unol â rheoliad 6;
- (f) unrhyw amodau, y mae'r awdurdod trwyddedu yn barnu eu bod yn angenrheidiol ar gyfer rhoi'r drwydded; ac
- (g) datganiad bod y drwydded yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a'r amodau a gynhwysir yn y Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i ffotograff o'r plentyn fod wedi ei atodi i'r drwydded.

Y manylion y mae'n rhaid i awdurdod trwyddedu eu darparu mewn cysylltiad â thrwydded

9. Rhaid i'r awdurdod trwyddedu anfon copi o'r drwydded at y rhiant a lofnododd y ffurflen gais.

7.—(1) Where the licensing authority considers that the information provided by the applicant is insufficient to enable it to decide whether to issue a licence or whether to issue a licence subject to conditions, the licensing authority must request additional information or documentation to enable it to make such a decision.

(2) In particular, the licensing authority may—

- (a) request that the child is medically examined;
- (b) interview any proposed private teacher;
- (c) interview the applicant, the child, the child's parents, or the proposed chaperone, as appropriate.

Form of licence

8.—(1) A licence must include—

- (a) the name of the child;
- (b) the name of the parents of the child;
- (c) the name of the applicant;
- (d) the names, times, nature and location of the activity or performance (and location of any of any rehearsal if different) for which the licence has been granted;
- (e) the dates of the activity, performance or rehearsal, or instead of the dates, the number of days on which the child will participate in the activity, performance or rehearsal and the period, not exceeding six months, in which the activities, performances or rehearsals may take place in accordance with regulation 6;
- (f) any conditions, which the licensing authority considers necessary for the grant of the licence; and
- (g) a statement that the licence is subject to the restrictions and conditions contained within these Regulations.

(2) A photograph of the child must be attached to the licence.

Particulars that a licensing authority must provide in respect of a licence

9. The licensing authority must send a copy of the licence to the parent who signed the application form.

10. Pan fo perfformiad neu weithgaredd i ddigwydd yn ardal awdurdod lletyol ac eithrio'r awdurdod trwyddedu, yn unol ag adran 39(3) o Ddeddf 1963, rhaid i'r awdurdod trwyddedu anfon at yr awdurdod lletyol hwnnw gopi o'r ffurflen gais, y drwydded, unrhyw wybodaeth neu ddogfennaeth ychwanegol a gafodd o dan reoliad 7 a phan fo'r awdurdod trwyddedu'n cymeradwyo unrhyw drefniadau ar gyfer addysg y plentyn, manylion y diwrnodau yn ystod cyfnod y drwydded pan fyddai'n ofynnol fel arfer i'r plentyn sy'n ddarostyngedig i'r drwydded fynychu'r ysgol pe bai'r plentyn hwnnw'n mynychu ysgol a gynhelir gan yr awdurdod trwyddedu.

Y cofnodion sydd i'w cadw gan y deiliad trwydded o dan adran 39(5) o Ddeddf 1963

11. Am chwe mis o ddyddiad y perfformiad neu'r gweithgaredd diwethaf y mae'r drwydded yn ymwneud ag ef, rhaid i'r deiliad trwydded gadw'r cofnodion a bennir yn—

- (a) Rhan 1 o Atodlen 3, pan fo'r drwydded wedi ei rhoi mewn cysylltiad â pherfformiad; neu
- (b) Rhan 2 o Atodlen 3, pan fo'r drwydded wedi ei rhoi mewn cysylltiad â gweithgaredd.

Dangos trwydded

12. Rhaid i'r deiliad trwydded, os gofynnir iddo wneud hynny, ddangos y drwydded ar bob adeg resymol yn ystod y cyfnod sy'n dechrau gyda'r perfformiad neu'r gweithgaredd cyntaf ac yn dod i ben gyda'r un olaf y mae'r drwydded yn ymwneud ag ef, yn y man lle y cynhelir y perfformiad (neu unrhyw fan lle y cynhelir yr ymarfer), neu'r man lle y mae'r gweithgaredd y mae'r drwydded yn ymwneud ag ef yn digwydd, i swyddog awdurdodedig yr awdurdod lletyol neu i gwnstabl.

Polisi amddiffyn plant

13. Rhaid i'r deiliad trwydded sicrhau y glynir wrth y polisi neu'r polisïau a amgaeir gyda'r cais.

Llythyr oddi wrth y pennaeth

14.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), ni chaniateir i awdurdod trwyddedu roi trwydded mewn cysylltiad â phlentyn sy'n mynychu ysgol oni bai bod yr awdurdod —

- (a) wedi cael llythyr oddi wrth bennaeth yr ysgol honno sy'n ymdrin ag unrhyw fater sy'n berthnasol i'r broses o ystyried adran 37(4) o Ddeddf 1963 gan yr awdurdod; a
- (b) wedi ystyried y llythyr hwnnw.

10. Where a performance or activity is to take place in the area of a host authority other than the licensing authority, in accordance with section 39(3) of the 1963 Act, the licensing authority must send to that host authority a copy of the application form, licence, any additional information or documentation obtained by it under regulation 7 and, where the licensing authority approves any arrangements for the child's education, details of the days during the period of the licence on which the child subject to the licence would ordinarily be required to attend school if that child were attending a school maintained by the licensing authority.

Records to be kept by the licence holder under section 39(5) of the 1963 Act

11. For six months from the date of the last performance or activity to which the licence relates, the licence holder must retain the records specified in—

- (a) Part 1 of Schedule 3, where the licence is granted in respect of a performance; or
- (b) Part 2 of Schedule 3, where the licence is granted in respect of an activity.

Production of licence

12. The licence holder must, on request, produce the licence at all reasonable hours during the period beginning with the first and ending with the last performance or activity to which the licence relates, at the place of performance (or any place of rehearsal), or the place where the activity to which the licence relates takes place, to an authorised officer of the host authority or a constable.

Child protection policy

13. The licence holder must ensure that the policy or policies enclosed with the application are adhered to.

Letter from head teacher

14.—(1) Subject to paragraph (2), a licensing authority must not grant a licence in respect of a child who attends school unless it—

- (a) has received a letter from the head teacher of that school dealing with any matter relevant to the authority's consideration of section 37(4) of the 1963 Act; and
- (b) has taken account of that letter.

(2) Nid yw'r gofyniad ym mharagraff (1) yn gymwys pan fo'r awdurdod wedi ei fodloni nad yw wedi bod yn ymarferol cyflwyno llythyr.

RHAN 3

Gofynion cyffredinol sy'n gymwys i bob perfformiad neu weithgaredd trwyddedig

Addysg

15.—(1) Ni chaniateir i'r awdurdod trwyddedu roi trwydded—

- (a) oni chaiff ei fodloni na fyddai addysg y plentyn yn dioddef drwy iddo gymryd rhan yn y perfformiadau neu'r gweithgareddau;
- (b) onid yw wedi cymeradwyo'r trefniadau (os oes rhai) ar gyfer addysg y plentyn yn ystod y cyfnod y mae'r drwydded yn gymwys iddo; ac
- (c) onid yw wedi cymeradwyo'r man lle y mae'r plentyn i gael addysg, yn ddarostyngedig i unrhyw amodau y mae'n barnu eu bod yn angenrheidiol i sicrhau bod y man hwnnw'n addas ar gyfer addysg y plentyn.

(2) Rhaid i'r deiliad trwydded sicrhau bod unrhyw drefniadau a gymeradwyir gan yr awdurdod trwyddedu ar gyfer addysg y plentyn yn cael eu cyflawni.

(3) Ni chaniateir i'r awdurdod trwyddedu gymeradwyo unrhyw drefniadau ar gyfer addysg plentyn gan athro preifat neu athrawes breifat oni chaiff ei fodloni—

- (a) ar y cwrs astudio arfaethedig ar gyfer y plentyn;
- (b) y darperir y cwrs astudio arfaethedig gan athro preifat addas neu athrawes breifat addas;
- (c) na fydd yr athro preifat neu'r athrawes breifat yn addysgu mwy na chwe phlentyn (gan gynnwys y plentyn o dan sylw) ar unrhyw adeg, neu ddeuddeg o blant os yw'r holl blant sy'n cael eu haddysgu wedi cyrraedd safon debyg yn y pwnc sy'n cael ei addysgu i'r plentyn o dan sylw; a
- (d) y bydd y plentyn, yn ystod y cyfnod y mae'r drwydded yn gymwys iddo, yn cael addysg am gyfnodau sydd, o'u hagregu, yn dod i gyfanswm nad yw'n llai na thair awr ar bob diwrnod y byddai'n ofynnol i'r plentyn fynychu'r ysgol pe bai'n mynychu ysgol a gynhelir gan yr awdurdod trwyddedu.

(4) Bernir bod gofynion paragraff (3)(d) wedi eu bodloni os yw'r awdurdod trwyddedu wedi ei fodloni y bydd y plentyn yn cael addysg—

(2) The requirement in paragraph (1) does not apply where the authority is satisfied that the production of a letter has not been practicable.

PART 3

General requirements applicable to all licensed performances or activities

Education

15.—(1) The licensing authority must not grant a licence unless it—

- (a) is satisfied that the child's education will not suffer by reason of taking part in the performances or activities;
- (b) has approved the arrangements (if any) for the education of the child during the period to which the licence applies; and
- (c) has approved the place where the child is to receive education, subject to such conditions as it considers necessary to ensure that the place is suitable for the child's education.

(2) The licence holder must ensure that any arrangements approved by the licensing authority for the child's education are carried out.

(3) The licensing authority must not approve any arrangements for the education of a child by a private teacher unless it is satisfied—

- (a) with the proposed course of study for the child;
- (b) that the proposed course of study will be delivered by a suitable private teacher;
- (c) that the private teacher will teach no more than six children (including the child in question) at any time, or twelve children if all the children being taught have reached a similar standard in the subject being taught to the child in question; and
- (d) that the child will, during the period to which the licence applies, receive education for periods, which when aggregated, total not less than three hours on each day on which the child would be required to attend school if the child were attending a school maintained by the licensing authority.

(4) The requirements of paragraph (3)(d) are deemed to have been met if the licensing authority is satisfied that the child will receive education—

- (a) am ddim llai na chwe awr yr wythnos;
- (b) yn ystod pob cyfnod cyflawn o bedair wythnos, neu os oes cyfnod o lai na phedair wythnos, yn ystod y cyfnod hwnnw, am gyfnodau nad ydynt yn llai na'r cyfnodau addysg agrededig sy'n ofynnol gan baragraff (3)(d) mewn cysylltiad â'r cyfnod;
- (c) ar ddiwrnodau pan fyddai'n ofynnol i'r plentyn fynychu'r ysgol pe bai'n ddisgybl sy'n mynychu ysgol a gynhelir gan yr awdurdod trwyddedu; a
- (d) am ddim mwy na phum awr ar unrhyw ddiwrnod o'r fath.

(5) At ddibenion y rheoliad hwn, nid yw unrhyw gyfnod addysg yn cynnwys—

- (a) unrhyw gyfnod sy'n digwydd ac eithrio yn ystod yr oriau y caniateir i blentyn fod yn bresennol mewn man lle y cynhelir perfformiad neu ymarfer o dan reoliad 23; a
- (b) unrhyw gyfnod sy'n llai na deng munud ar hugain.

Enillion

16. Caiff yr awdurdod trwyddedu gynnwys amod yn y drwydded i unrhyw un neu rai neu'r cyfan o'r symiau a enillir gan y plentyn am gymryd rhan yn y perfformiad neu'r gweithgaredd gael ei drin neu eu trin mewn modd penodol gan y deiliad trwydded.

Hebryngwyr

17.—(1) Rhaid i awdurdod trwyddedu gymeradwyo person i fod yn hebryngwr i—

- (a) gofalu am y plentyn a'i reoli; a
- (b) diogelu, cynnal a hyrwyddo llesiant y plentyn,

tra bo'r plentyn yn cymryd rhan mewn gweithgaredd, perfformiad, neu ymarfer neu tra bo'r plentyn yn byw yn rhywle ac eithrio'r man lle y byddai fel arall yn byw yn ystod y cyfnod y mae'r drwydded yn gymwys iddo.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys os yw'r plentyn yn cael ei ofalu amdano gan riant y plentyn neu athro neu athrawes a fyddai fel arfer yn darparu addysg y plentyn.

(3) Y nifer uchaf o blant y caiff hebryngwr ofalu amdanynt ar unrhyw un adeg yw—

- (a) deuddeg; neu
- (b) os athro preifat neu athrawes breifat y plentyn o dan sylw yw'r person a gymeradwywyd i weithredu fel hebryngwr, tri.

- (a) for not less than six hours a week;
- (b) during each complete period of four weeks, or if there is a period of less than four weeks, during that period, for periods not less than the aggregate periods of education required by paragraph (3)(d) in respect of the period;
- (c) on days on which the child would be required to attend school if the child were a pupil attending a school maintained by the licensing authority; and
- (d) for not more than five hours on any such day.

(5) For the purposes of this regulation, any period of education does not include—

- (a) any period which takes place other than during the hours when a child is permitted to be present at a place of performance or rehearsal under regulation 23; and
- (b) any period of less than thirty minutes.

Earnings

16. The licensing authority may include a condition in the licence that any or all of the sums earned by the child for taking part in the performance or activity be dealt with in a particular manner by the licence holder.

Chaperones

17.—(1) A licensing authority must approve a person to be a chaperone to—

- (a) have care and control of the child; and
- (b) safeguard, support and promote the wellbeing of the child,

whilst the child is taking part in an activity, performance, or rehearsal or whilst the child is living elsewhere than the place the child would otherwise live during the period to which the licence applies.

(2) Paragraph (1) does not apply if the child is being cared for by the child's parent or a teacher who would ordinarily provide the child's education.

(3) The maximum number of children a chaperone may take care of at any one time is—

- (a) twelve; or
- (b) where the person approved to act as a chaperone is the private teacher of the child in question, three.

(4) Ni chaniateir i'r awdurdod trwyddedu gymeradwyo person fel hebryngwr oni chaiff ei fodloni bod y person—

- (a) wedi ymgymryd â hyfforddiant amddiffyn plant;
- (b) yn addas a chymwys i arfer gofal priodol dros, a rheolaeth briodol ar, blentyn o oedran a rhyw'r plentyn o dan sylw; ac
- (c) yn un na fydd yn cael ei atal rhag cyflawni dyletswyddau tuag at y plentyn gan ddyletswyddau tuag at blant eraill.

(5) Pan fo plentyn yn dioddef gan unrhyw anaf neu afiechyd tra bo o dan ofal yr hebryngwr, rhaid i'r deiliad trwydded sicrhau bod rhiant y plentyn a enwir yn y ffurflen gais, yr awdurdod trwyddedu a'r awdurdod lletyol yn cael eu hysbysu ar unwaith am yr anaf neu'r afiechyd hwnnw.

(6) Pan fo'r awdurdod trwyddedu yn credu ei bod yn briodol, caniateir iddo roi trwydded yn ddarostyngedig i amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r deiliad trwydded ddarparu i'r hebryngwr gopi cyfredol o'r sgript ar gyfer y cynhyrchiad o dan sylw.

(7) Rhaid i amod a osodir o dan baragraff (6) fod wedi ei nodi yn y drwydded.

Llety

18.—(1) Pan fo'n ofynnol i blentyn fyw yn rhywle ac eithrio'r man lle y byddai'n byw fel arfer yn ystod y cyfnod y mae'r drwydded yn gymwys iddo oherwydd ei fod yn cymryd rhan yn y perfformiad neu'r gweithgaredd y cafwyd y drwydded ar ei gyfer, rhaid i'r awdurdod trwyddedu gymeradwyo'r man hwnnw fel un sy'n addas i'r plentyn hwnnw.

(2) Caniateir i gymeradwyaeth yr awdurdod trwyddedu fod yn ddarostyngedig i unrhyw un neu rai o'r amodau a ganlyn—

- (a) y darperir cludiant i'r plentyn rhwng y man lle y cynhelir y perfformiad, yr ymarfer neu'r gweithgaredd, a'r llety;
- (b) bod trefniadau addas yn cael eu gwneud ar gyfer prydau bwyd i'r plentyn; ac
- (c) unrhyw amod arall a fyddai'n ffafriol i les y plentyn mewn cysylltiad â'r llety hwnnw.

Y man lle y cynhelir y perfformiad a'r man lle y cynhelir yr ymarfer

19.—(1) Rhaid i'r awdurdod trwyddedu gymeradwyo unrhyw fan lle y bydd y plentyn yn perfformio, yn ymarfer neu'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd.

(4) The licensing authority must not approve a person as a chaperone unless it is satisfied that the person—

- (a) has undertaken child protection training;
- (b) is suitable and competent to exercise proper care and control of a child of the age and sex of the child in question; and
- (c) will not be prevented from carrying out duties towards the child by duties towards other children.

(5) Where a child suffers any injury or illness while under the care of the chaperone, the licence holder must ensure that the parent of the child named in the application form and the licensing and host authorities are notified immediately of such injury or illness.

(6) The licensing authority may if it thinks fit, grant a licence subject to a condition requiring the holder of the licence to provide the chaperone with a current copy of the script for the production concerned.

(7) A condition imposed under paragraph (6) must be set out in the licence.

Accommodation

18.—(1) Where a child is required to live somewhere other than where that child would usually live during the period to which the licence applies by reason of taking part in the performance or activity for which the licence is obtained, the licensing authority must approve that place as being suitable for that child.

(2) The licensing authority's approval may be subject to any of the following conditions—

- (a) that transport will be provided for the child between the place of performance, rehearsal or activity, and the accommodation;
- (b) that suitable arrangements are made for meals for the child; and
- (c) any other condition conducive to the welfare of the child in connection with that accommodation.

Place of performance and place of rehearsal

19.—(1) The licensing authority must approve any place where the child will perform, rehearse or take part in any activity.

(2) Ni chaniateir i'r awdurdod trwyddedu gymeradwyo'r man lle y cynhelir y perfformiad, yr ymarfer neu'r gweithgaredd oni chaiff ei fodloni, o roi sylw i oedran y plentyn a natur, amser a hyd y perfformiad, yr ymarfer neu'r gweithgaredd—

- (a) bod trefniadau addas wedi eu gwneud—
 - (i) ar gyfer darparu prydau bwyd i'r plentyn;
 - (ii) i'r plentyn ymwisgo ar gyfer y perfformiad, yr ymarfer neu'r gweithgaredd; a
 - (iii) ar gyfer amser gorffwys a hamdden y plentyn, pan nad yw'n cymryd rhan mewn perfformiad, ymarfer neu weithgaredd;
- (b) bod gan y man hwnnw doiledau a chyfleusterau ymolchi sy'n addas a digonol; ac
- (c) y caiff y plentyn ei amddiffyn yn ddigonol rhag tywydd garw.

(3) Caiff yr awdurdod trwyddedu roi ei gymeradwyaeth yn ddarostyngedig i unrhyw amodau y mae'n barnu eu bod yn angenrheidiol.

(4) Ym mharagraff (2)(a)(ii), nid yw trefniadau i blentyn, sydd wedi cyrraedd pum mlwydd oed, ymwisgo ar gyfer perfformiad, ymarfer neu weithgaredd yn addas onid yw'n cael ymwisgo gyda phlant o'r un rhyw ag ef yn unig.

Trefniadau ac amser ar gyfer teithio

20.—(1) Rhaid i'r deiliad trwyddedd sicrhau bod trefniadau addas (o roi sylw i oedran y plentyn) yn cael eu gwneud i fynd â'r plentyn i'w gartref neu i unrhyw gyrchfan arall ar ôl y perfformiad neu'r ymarfer olaf, neu derfyn unrhyw weithgaredd ar unrhyw ddiwrnod.

(2) Rhaid i'r awdurdod trwyddedu—

- (a) rhoi sylw, pan fo'n rhoi ei gymeradwyaeth, i hyd yr amser y bydd y plentyn yn ei dreulio wrth deithio yn ôl ac ymlaen i'r man lle y cynhelir y perfformiad neu'r ymarfer; a
- (b) cynnwys unrhyw amodau y mae'n barnu eu bod yn angenrheidiol mewn perthynas â'r amserau cynharaf a hwyraf y caiff y plentyn fod yn y man lle y cynhelir y perfformiad neu'r ymarfer.

(2) The licensing authority must not approve the place of performance, rehearsal or activity unless it is satisfied that, having regard to the age of the child and the nature, time and duration of the performance, rehearsal or activity—

- (a) suitable arrangements have been made for—
 - (i) the provision of meals for the child;
 - (ii) the child to dress for the performance, rehearsal or activity; and
 - (iii) the child's rest and recreation, when not taking part in a performance, rehearsal or activity;
- (b) the place has suitable and sufficient toilets and washing facilities; and
- (c) the child will be adequately protected against inclement weather.

(3) The licensing authority may give its approval subject to such conditions as it considers necessary.

(4) In paragraph (2)(a)(ii), arrangements for a child who has attained the age of five years to dress for a performance, rehearsal or activity are not suitable unless such a child can dress only with children of the same sex as the child in question.

Travel arrangements and time

20.—(1) The licence holder must ensure that suitable arrangements (having regard to the child's age) are made to get the child home or to any other destination after the last performance or rehearsal, or the conclusion of any activity on any day.

(2) The licensing authority must—

- (a) have regard to the length of time which the child will spend travelling to and from the place of performance or rehearsal when giving its approval; and
- (b) include any conditions that it considers necessary in relation to the earliest and latest times that the child can be at the place of performance or rehearsal.

RHAN 4

Cyfyngiadau mewn perthynas â phob perfformiad

Cymhwyso'r Rhan hon

21. Mae'r gofynion yn y Rhan hon yn gymwys i bob perfformiad trwyddedig ac i bob perfformiad, sydd wedi ei esemptio rhag y gofyniad i gael trwydded, o dan adran 37(3)(a) o Ddeddf 1963.

Cyflogaeth

22. Ni chaniateir i blentyn sy'n cymryd rhan mewn perfformiad gael ei gyflogi mewn unrhyw gyflogaeth arall ar ddiwrnod y perfformiad hwnnw na'r diwrnod wedyn.

Yr amserau cynharaf a hwyraf yn y man lle y cynhelir y perfformiad neu'r ymarfer

23.—(1) Mae Tabl 1 yn nodi'r amserau cynharaf a hwyraf y caiff plentyn fod yn y man lle y cynhelir y perfformiad neu'r ymarfer.

(2) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys os y man lle y mae'r plentyn fel arfer yn byw neu'n cael ei addysg yw'r man lle y cynhelir y perfformiad neu'r ymarfer.

Tabl 1

<i>Oedran y plentyn</i>	<i>Yr amser cynharaf</i>	<i>Yr amser hwyraf</i>
O'i eni hyd nes y bydd yn cyrraedd 5 oed	07:00	22:00
O 5 oed tan oedran gadael ysgol	07:00	23:00

Presenoldeb mewn man lle y cynhelir perfformiad neu ymarfer a'r oriau perfformio

24.—(1) Mae Tabl 2 yn nodi uchafswm nifer yr oriau y caiff plentyn fod mewn man lle y cynhelir perfformiad neu ymarfer, y caiff berfformio neu ymarfer mewn un niwrnod neu berfformio neu ymarfer yn barhaus.

(2) Wrth gyfrifo nifer yr oriau ar unrhyw ddiwrnod y mae'r plentyn yn bresennol mewn man lle y cynhelir perfformiad neu ymarfer, rhaid ystyried unrhyw gyfnodau addysg sy'n ofynnol i gydymffurfio â threfniadau a gymeradwyir o dan reoliad 15, hyd yn oed os yw'r addysg honno'n cael ei darparu yn rhywle ac eithrio'r man lle y cynhelir y perfformiad neu'r ymarfer.

PART 4

Restrictions in relation to all performances

Application of this Part

21. The requirements in this Part apply to all licensed performances and to all performances, which are exempted from the requirement to obtain a licence, under section 37(3)(a) of the 1963 Act.

Employment

22. A child taking part in a performance must not be employed in any other employment on the day of that performance or the following day.

Earliest and latest times at place of performance or rehearsal

23.—(1) Table 1 sets out the earliest and latest times a child may be at a place of performance or rehearsal.

(2) This regulation does not apply where the place of performance or rehearsal is the place where the child ordinarily lives or receives education.

Table 1

<i>Age of child</i>	<i>Earliest time</i>	<i>Latest time</i>
Birth until child reaches	07:00	22:00
5 to school leaving age	07:00	23:00

Attendance at place of performance or rehearsal and hours of performance

24.—(1) Table 2 sets out the maximum number of hours a child may be at a place of performance or rehearsal, may perform or rehearse in one day and may perform or rehearse continuously.

(2) When calculating the number of hours on any day during which a child is present at a place of performance or rehearsal, any periods of education required to comply with arrangements approved under regulation 15 must be taken into account, even if that education is provided elsewhere than at the place of performance or rehearsal.

Tabl 2

<i>Oedran y plentyn</i>	<i>Uchafswm nifer yr oriau mewn un niwrnod mewn man lle y cynhelir perfformiad neu ymarfer</i>	<i>Uchafswm nifer cyfan yr oriau perfformio neu ymarfer mewn un niwrnod</i>	<i>Uchafswm nifer parhaus yr oriau perfformio neu ymarfer mewn un niwrnod</i>
O'i eni hyd nes y bydd yn cyrraedd 5 oed	5	2	0.5
O'i eni hyd nes y bydd yn cyrraedd 9 oed	8	3	2.5
O 9 oed tan oedran gadael ysgol	9.5	5	2.5

Seibiannau ar unrhyw ddiwrnod pan fo'r plentyn yn perfformio neu'n ymarfer

25.—(1) Pan fo plentyn o dan bum mlwydd oed yn bresennol yn y man lle y cynhelir y perfformiad neu'r ymarfer—

- (a) rhaid i unrhyw seibiannau bara am gyfnod o bymtheng munud o leiaf, ac eithrio bod rhaid, pan fo plentyn yn bresennol am bedair neu fwy o oriau yn olynol, i unrhyw seibiannau o'r fath gynnwys o leiaf un seibiant o ddeugain munud a phump a ddefnyddir at ddiben pryd bwyd; a
- (b) rhaid i unrhyw seibiant gael ei ddefnyddio at ddibenion prydau bwyd, gorffwys, addysg neu hamdden.

(2) Pan fo plentyn sy'n bum mlwydd oed neu drosodd yn bresennol yn y man lle y cynhelir y perfformiad neu'r ymarfer am fwy na phedair, ond am lai nag wyth awr yn olynol, rhaid iddo gael o leiaf:

- (a) un seibiant sy'n para am ddeugain munud a phump o leiaf ar gyfer pryd bwyd; a
- (b) un seibiant arall sy'n para am bymtheng munud o leiaf.

(3) Pan fo plentyn sy'n bum mlwydd oed neu drosodd yn bresennol yn y man lle y cynhelir y perfformiad neu'r ymarfer am wyth awr neu fwy yn olynol, rhaid iddo gael:

- (a) y seibiannau sy'n ofynnol o dan baragraff (2); a

Table 2

<i>Age of child</i>	<i>Maximum number of hours in one day at place of performance or rehearsal</i>	<i>Maximum total number of hours of performance or rehearsal in one day</i>	<i>Maximum continuous number of hours of performance or rehearsal in one day</i>
Birth until child reaches 5	5	2	0.5
5 until child reaches 9	8	3	2.5
9 to school leaving age	9.5	5	2.5

Breaks on any day on which a child is performing or rehearsing

25.—(1) When a child under the age of five is present at the place of performance or rehearsal—

- (a) any breaks must be for a minimum duration of fifteen minutes, except that where a child is present for four or more consecutive hours, any such breaks must include at least one break of forty-five minutes used for the purpose of a meal; and
- (b) any break must be used for the purposes of meals, rest, education or recreation.

(2) When a child aged five or over is present at the place of performance or rehearsal for more than four, but less than eight consecutive hours, the child must have a minimum of:

- (a) one meal break of a minimum duration of forty-five minutes; and
- (b) one other break of a minimum duration of fifteen minutes.

(3) When a child aged five or over is present at the place of performance or rehearsal for eight or more consecutive hours, the child must have:

- (a) the breaks required under paragraph (2); and

- (b) o leiaf un seibiant arall sy'n para am bymtheng munud o leiaf.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), rhaid i blentyn gael seibiant sy'n para am awr a hanner o leiaf rhwng pryd y mae'n cymryd rhan mewn perfformiadau olynol pan fo, ar yr un diwrnod—

- (a) yn perfformio'r un rhan neu'n cymryd rhan perfformiwr arall mewn mwy nag un enghraifft o'r un perfformiad gan gynnwys ymarferion, sy'n dod o fewn adran 37(2)(a) neu (b) o Ddeddf 1963, y mae trwydded wedi ei chael ar eu cyfer;
- (b) yn cymryd rhan mewn perfformiadau o dan drwyddedau gwahanol a roddwyd mewn cysylltiad â'r plentyn; neu
- (c) yn cymryd rhan mewn perfformiad y mae trwydded wedi ei chael ar ei gyfer ac mewn perfformiad nad yw'n ofynnol cael trwydded ar ei gyfer o dan adran 37(3)(a) o Ddeddf 1963.

(5) Pan fo'r perfformiad neu'r ymarfer cynharach yn para llai nag un awr, ac

- (a) bod y perfformiad neu'r ymarfer canlynol yn digwydd yn yr un man perfformio neu ymarfer; neu
- (b) nad oes angen unrhyw amser ar gyfer teithio rhwng y perfformiad neu'r ymarfer cynharach a'r un olynol,

caniateir i'r seibiant rhwng y perfformiadau (neu'r ymarferion) hynny gael ei ostwng i isafswm o ddeugain munud a phump.

Isafswm nifer y seibiannau dros nos

26. Yn ddarostyngedig i reoliad 30, rhaid i blentyn gael seibiant dros nos sy'n para deuddeg awr o leiaf rhwng ei bresenoldeb yn y man perfformio neu ymarfer.

RHAN 5

Cyfyngiadau ac eithriadau mewn perthynas â phob perfformiad trwyddedig

Cymhwyso'r Rhan hon

27. Mae'r cyfyngiadau a'r eithriadau yn y Rhan hon yn gymwys i bob perfformiad trwyddedig.

- (b) at least one other break of a minimum duration of fifteen minutes.

(4) Subject to paragraph (5), a child must have a break of a minimum duration of one and a half hours between the child's participation in consecutive performances where on the same day—

- (a) the child performs the same part or takes the place of another performer in more than one instance of the same performance including rehearsals, falling within section 37(2)(a) or (b) of the 1963 Act, for which a licence has been obtained;
- (b) the child is taking part in performances under different licences granted in respect of the child; or
- (c) the child is taking part in a performance for which a licence has been obtained and in a performance for which a licence is not required under section 37(3)(a) of the 1963 Act.

(5) Where the earlier performance or rehearsal is less than one hour in duration, and—

- (a) the following performance or rehearsal takes place at the same place of performance or rehearsal; or
- (b) there is no time required for travel between the earlier and consecutive performance or rehearsal,

the break between those performances (or rehearsals) may be reduced to a minimum of forty-five minutes.

Minimum breaks overnight

26. Subject to regulation 30, a child must have an overnight break of a minimum duration of twelve hours between attendance at a place of performance or rehearsal.

PART 5

Restrictions and exceptions in relation to all licensed performances

Application of this Part

27. The restrictions and exceptions in this Part apply to all licensed performances.

Uchafswm nifer y diwrnodau olynol y caiff plentyn gymryd rhan mewn perfformiadau neu ymarferion

28. Ni chaniateir i blentyn gymryd rhan mewn perfformiadau neu ymarferion ar fwy na chwe niwrnod yn olynol.

Seibiant mewn perfformiadau

29.—(1) Ni chaniateir i blentyn sy'n cymryd rhan mewn perfformiadau, ac eithrio perfformiadau syrcau, ar uchafswm nifer y diwrnodau olynol a ganiateir gan reoliad 28 am gyfnod o wyth wythnos yn olynol, gymryd rhan mewn unrhyw berfformiad neu ymarfer yn ystod y pedwar diwrnod ar ddeg sy'n dilyn y perfformiad diwethaf.

(2) Nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys os yw nifer y diwrnodau a bennir yn y drwydded i'r plentyn gael perfformio arnynt yn llai na thrigain.

Gwaith nos

30.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), caiff awdurdod trwyddedu ganiatáu i blentyn gymryd rhan mewn perfformiad cyn yr amserau cynharaf ac ar ôl yr amserau hwyrach a nodir yn rheoliad 23.

(2) Pan fo awdurdod trwyddedu yn caniatáu i blentyn gymryd rhan mewn perfformiad cyn yr amserau cynharaf ac ar ôl yr amserau hwyrach a nodir yn rheoliad 23—

- (a) rhaid i nifer yr oriau pryd y bydd y plentyn yn cymryd rhan mewn perfformiad rhwng yr amserau hwyrach a chynharaf gael ei gynnwys wrth gyfrifo uchafswm nifer yr oriau pan gaiff y plentyn gymryd rhan mewn perfformiad neu ymarfer wrth gydymffurfio â rheoliad 24;
- (b) ni chaniateir i'r plentyn gymryd rhan mewn unrhyw berfformiad neu ymarfer arall hyd nes y bydd o leiaf un awr ar bymtheg wedi mynd heibio er diwedd rhan y plentyn yn y perfformiad; ac
- (c) pan fo'r plentyn yn cymryd rhan mewn perfformiad rhwng yr amserau hwyrach a chynharaf ar ddau ddiwrnod yn olynol, ni chaiff yr awdurdod trwyddedu ganiatáu i'r plentyn gymryd rhan mewn unrhyw berfformiad pellach yn yr oriau rhwng yr amserau hwyrach a'r rhai cynharaf yn ystod y saith niwrnod yn union ar ôl y ddau ddiwrnod hynny.

Maximum number of consecutive days on which a child may take part in performances or rehearsals

28. A child must not take part in performances or rehearsals on more than six consecutive days.

Break in performances

29.—(1) A child who takes part in performances, other than circus performances, on the maximum number of consecutive days permitted by regulation 28 for a period of eight consecutive weeks, must not take part in any performance or rehearsal during the fourteen days following the last performance.

(2) This requirement does not apply if the number of days specified in the licence on which the child may perform is fewer than sixty.

Night-work

30.—(1) Subject to paragraph (2), a licensing authority may permit a child to take part in a performance before the earliest and after the latest times set out in regulation 23.

(2) Where a licensing authority permits a child to take part in a performance before the earliest and after the latest times set out in regulation 23—

- (a) the number of hours during which the child takes part in a performance between the latest and earliest times must be included when calculating the maximum number of hours that the child may take part in a performance or rehearsal in compliance with regulation 24;
- (b) the child must not take part in any other performance or rehearsal until at least sixteen hours have elapsed since the end of the child's part in the performance; and
- (c) where the child takes part in a performance between the latest and earliest times on two consecutive days, the licensing authority must not permit the child to take part in any further performance in the hours between the latest and earliest times during the seven days immediately following those two days.

Disgresiwn yr hebryngwr

31.—(1) Caiff yr hebryngwr sydd â gofal dros blentyn ganiatáu iddo gymryd rhan mewn perfformiad am gyfnod nad yw'n hwy nag un awr yn union ar ôl yr amser hwyraf a bennir mewn rheoliad 23 ar yr amod—

- (a) na fydd cyfanswm nifer yr oriau pryd y bydd y plentyn yn cymryd rhan mewn perfformiad neu ymarfer, gan gynnwys y cyfnod nad yw'n hwy nag un awr, yn fwy nag uchafswm nifer yr oriau a ganiateir o dan reoliad 24;
- (b) ei bod yn ymddangos i'r hebryngwr na chaiff lles y plentyn ei niweidio; ac
- (c) ei bod yn ymddangos i'r hebryngwr bod yr amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r plentyn gymryd rhan mewn perfformiad ar ôl yr amser hwyraf a bennir wedi codi o dan amgylchiadau a oedd y tu allan i reolaeth y deiliad trwydded.

(2) Pan fo'r hebryngwr yn caniatáu i blentyn gymryd rhan mewn perfformiad ar ôl yr amser hwyraf a bennir yn rheoliad 23, rhaid i'r deiliad trwydded sicrhau bod yr hebryngwr yn hysbysu'r awdurdod trwyddedu a'r awdurdod lletyol erbyn y diwrnod canlynol fan bellaf ac yn rhoi'r rheswm dros y penderfyniad hwnnw.

(3) Caiff yr hebryngwr sydd â gofal dros blentyn ganiatáu i un o'r seibiannau ar gyfer pryd bwyd, sy'n ofynnol o dan reoliad 25, gael ei leihau pan fo'r plentyn yn cymryd rhan mewn perfformiad neu ymarfer yn yr awyr agored, ar yr amod—

- (a) nad yw'r seibiant yn para llai na deng munud ar hugain; a
- (b) nad eir dros uchafswm nifer yr oriau pryd y caiff y plentyn gymryd rhan mewn perfformiad neu ymarfer o dan reoliad 24.

RHAN 6

Trwyddedau i berfformio a chymryd rhan mewn gweithgareddau dramor

Ffurf trwydded

32. Rhaid i drwydded a roddir o dan adran 25 o Ddeddf 1933 gynnwys—

- (a) enw'r plentyn;
- (b) enw'r ceisydd;
- (c) manylion yr ymrwymiad y mae'r plentyn yn mynd dramor i'w gyflawni;
- (d) y dyddiad y rhoddir y drwydded a'r dyddiad y daw i ben;

Chaperone discretion

31.—(1) The chaperone in charge of a child may allow that child to take part in a performance for a period not exceeding one hour immediately following the latest time specified in regulation 23 provided that—

- (a) the total number of hours during which the child takes part in a performance or rehearsal, including the period not exceeding one hour, does not exceed the maximum number of hours permitted under regulation 24;
- (b) it appears to the chaperone that the welfare of the child will not be prejudiced; and
- (c) it appears to the chaperone that the conditions requiring the child to take part in a performance after the latest time specified arose in circumstances outside the control of the licence holder.

(2) Where the chaperone allows a child to take part in a performance after the latest time specified in regulation 23, the licence holder must ensure that the chaperone notifies the licensing and host authorities no later than the following day and provides the reason for this decision.

(3) The chaperone in charge of a child may allow one of the breaks for a meal, required under regulation 25, to be reduced where the child is taking part in a performance or rehearsal outdoors, provided that—

- (a) the duration of the break is not less than thirty minutes; and
- (b) the maximum number of hours during which the child may take part in a performance or rehearsal under regulation 24 is not exceeded.

PART 6

Licences to perform and participate in activities abroad

Form of licence

32. A licence granted under section 25 of the 1933 Act must include—

- (a) the name of the child;
- (b) the name of the applicant;
- (c) details of the engagement that the child is going abroad to fulfil;
- (d) the date on which the licence is granted and upon which it will expire;

- (e) manylion unrhyw warant a roddir gan y ceisydd yn unol ag adran 25(6) o Ddeddf 1933;
- (f) manylion unrhyw amodau y bernir eu bod yn angenrheidiol ar gyfer rhoi'r drwydded; ac
- (g) llofnod y person sy'n rhoi'r drwydded.

- (e) details of any security given by the applicant in accordance with section 25(6) of the 1933 Act;
- (f) details of any conditions considered necessary for the grant of the licence; and
- (g) the signature of the person granting the licence.

Yr wybodaeth sydd i'w darparu i swyddog consylaidd

33. Pan fo trwydded o dan adran 25 o Ddeddf 1933 wedi ei rhoi, ei hadnewyddu neu ei hamrywio, y manylion y mae'n rhaid i'r ynad heddwch eu hanfon at Weinidogion Cymru er mwyn eu trosglwyddo i'r priod swyddog consylaidd yw—

- (a) enw a chyfeiriad y plentyn;
- (b) dyddiad geni, man geni a chenedligrwydd y plentyn;
- (c) enw a chyfeiriad y ceisydd am y drwydded;
- (d) enw a chyfeiriad rhiant y plentyn;
- (e) manylion yr ymrwymiad, gan gynnwys ym mha le ac am ba mor hir y mae'r plentyn i gymryd rhan;
- (f) copi o'r contract cyflogaeth neu ddogfen arall sy'n dangos ar ba delerau ac amodau y mae'r plentyn wedi ei gymryd ymlaen; ac
- (g) copi o'r drwydded.

Information to be provided to consular officer

33. Where a licence under section 25 of the 1933 Act is granted, renewed or varied, the particulars which the justice of the peace must send to the Welsh Ministers for transmission to the proper consular officer are—

- (a) the name and address of the child;
- (b) the date, place of birth and nationality of the child;
- (c) the name and address of the applicant for the licence;
- (d) the name and address of the parent of the child;
- (e) details of the engagement, including where and for how long the child is to participate;
- (f) a copy of the contract of employment or other document showing the terms and conditions on which the child is engaged; and
- (g) a copy of the licence.

Huw Lewis

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

Minister for Education and Skills, one of the Welsh Ministers

7 Hydref 2015

7 October 2015

YR ATODLENNI

SCHEDULES

ATODLEN 1 Rheoliad 3 Dirymiadau

Tabl 3

<i>Y Rheoliadau</i>	<i>Y Cyfeirnod</i>
Rheoliadau Plant (Perfformiadau) 1968	1968/1728
Rheoliadau Plant (Perfformiadau) (Diwygiadau Amrywiol) 1998	1998/1678
Rheoliadau Plant (Perfformiadau) (Diwygio) (Cymru) 2007	2007/736

SCHEDULE 1 Regulation 3 Revocations

Table 3

<i>Regulations</i>	<i>Reference</i>
The Children (Performances) Regulations 1968	1968/1728
The Children (Performances)(Miscellaneous Amendments) Regulations 1998	1998/1678
Children (Performances) (Amendment)(Wales) Regulations 2007	2007/736

ATODLEN 2 Rheoliad 4

Yr Wybodaeth sy'n Ofynnol ar gyfer Cais am Drwydded

RHAN 1

Yr wybodaeth sydd i'w darparu gan y ceisydd mewn perthynas â'r plentyn

1. Enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r plentyn y gofynnir am drwydded ar ei gyfer.

2. Enw a chyfeiriad yr ysgol y mae'r plentyn yn ei mynychu ar hyn o bryd neu, os nad yw'r plentyn yn mynychu ysgol, enw a chyfeiriad athro preifat neu athrawes breifat y plentyn.

3. Manylion pob trwydded mewn perthynas â'r plentyn a roddwyd yn ystod y deuddeng mis cyn dyddiad y cais gan unrhyw awdurdod lleol neu, yn yr Alban, gan unrhyw awdurdod addysg, ac eithrio'r awdurdod trwyddedu y mae'r cais yn cael ei wneud iddo, gan ddatgan ym mhob achos—

(a) enw'r awdurdod lleol neu'r awdurdod addysg;

SCHEDULE 2 Regulation 4

Information Required For A Licence Application

PART 1

Information to be provided by the applicant in relation to the child

1. Name, address and date of birth of the child for whom the licence is requested.

2. Name and address of the school currently attended by the child or, if the child is not attending a school, the name and address of the child's private teacher.

3. Details of each licence in relation to the child granted during the twelve months preceding the date of the application by any local authority or, in Scotland, any education authority, other than the licensing authority to which the application is made, stating in each case—

(a) the name of the local authority or the education authority;

(b) y dyddiad pan roddwyd y drwydded; ac

(c) dyddiadau a natur y perfformiadau neu'r gweithgareddau.

4. Manylion pob cais mewn perthynas â'r plentyn am drwydded a wrthodwyd gan unrhyw awdurdod lleol neu, yn yr Alban, gan unrhyw awdurdod addysg, ac eithrio'r awdurdod trwyddedu y mae'r cais yn cael ei wneud iddo, yn y deuddeg mis cyn dyddiad y cais, gan ddatgan ym mhob achos—

(a) enw'r awdurdod lleol neu'r awdurdod addysg; a

(b) y rhesymau (os ydynt yn hysbys) dros wrthod rhoi trwydded.

5. Manylion unrhyw berfformiadau nad oedd yn ofynnol cael trwydded ar eu cyfer, yn rhinwedd adran 37(3) o Ddeddf 1963, ac y cymerodd y plentyn ran ynddynt yn ystod y deuddeg mis cyn dyddiad y cais, gan ddatgan ym mhob achos—

(a) dyddiad y perfformiad;

(b) nifer y diwrnodau y cynhaliwyd y perfformiad;

(c) teitl y perfformiad; a

(d) enw a chyfeiriad y person a oedd yn gyfrifol am gynhyrchu'r perfformiad y cymerodd y plentyn ran ynddo.

6. Y dyddiadau (os oes rhai) pan oedd y plentyn yn absennol o'r ysgol yn ystod y deuddeg mis cyn dyddiad y cais oherwydd ei fod wedi cymryd rhan mewn perfformiad neu weithgaredd.

7. Swm unrhyw arian a enillwyd gan y plentyn yn ystod y deuddeg mis cyn dyddiad y cais, gan ddatgan a oedd yr arian a enillwyd yn arian mewn cysylltiad â pherfformiadau neu weithgareddau y rhoddwyd trwydded ar eu cyfer neu berfformiad nad oedd yn ofynnol cael trwydded ar ei gyfer.

(b) the date on which the licence was granted; and

(c) the dates and nature of performances or activities.

4. Details of each application in relation to the child for a licence refused by any local authority or, in Scotland, any education authority, other than the licensing authority to which the application is made, in the twelve months preceding the date of the application, stating in each case—

(a) the name of the local authority or education authority; and

(b) the reasons (if known) for the refusal to grant a licence.

5. Details of any performances for which a licence was not required, by virtue of section 37(3) of the 1963 Act, in which the child took part during the twelve months preceding the date of the application, stating in each case—

(a) the date of the performance;

(b) the number of days of performance;

(c) the title of the performance; and

(d) the name and address of the person responsible for the production of the performance in which the child took part.

6. Dates (if any) on which the child has been absent from school during the twelve months preceding the date of the application by reason of taking part in a performance or activity.

7. Amount of any monies earned by the child during the twelve months preceding the date of the application, stating whether the monies earned were in respect of performances or activities for which a licence was granted or a performance for which a licence was not required.

RHAN 2

Yr wybodaeth sydd i'w darparu gan y ceisydd am y perfformiadau neu'r gweithgareddau

8. Enw, teitl a chyfeiriad y ceisydd.

9. Enw a natur y perfformiadau neu weithgareddau y gofynnir am drwydded mewn cysylltiad â hwy (er enghraifft, rhai theatraidd, ffilmio, chwaraeon, modelu), a disgrifiad o'r hyn y byddai'n ofynnol i'r plentyn ei wneud o ganlyniad i gymryd rhan yn y perfformiad neu'r gweithgareddau.

PART 2

Information to be provided by the applicant about the performances or activities

8. Name, title and address of the applicant.

9. Name and nature of the performances or activities in respect of which the licence is requested (for example, theatrical, filming, sport, modelling), and a description of what the child will be required to do as a result of taking part in the performances or activities.

10. Y man lle y cynhelir y gweithgareddau, y perfformiadau a'r ymarferion y gofynnir am drwydded ar eu cyfer, gan gynnwys unrhyw gyfnodau yn y fan a'r lle.

11. Dyddiadau gweithgareddau, perfformiadau neu ymarferion y gofynnir am y drwydded ar eu cyfer, neu nifer y diwrnodau, a'r cyfnod pryd, y gofynnir i'r plentyn gael cymryd rhan mewn gweithgareddau, perfformiadau neu ymarferion.

12. Parhad neu hyd amser cyfan disgwylidig y gweithgareddau neu berfformiadau (gan gynnwys unrhyw ymarferion) y gofynnir am drwydded mewn cysylltiad â hwy a bras amcan o hyd ymddangosiad y plentyn mewn perfformiadau neu weithgareddau o'r fath.

13. Faint o waith nos (os oes gwaith nos) y gwneir cais am gymeradwyaeth ar ei gyfer oddi wrth yr awdurdod trwyddedu o dan reoliad 30, gan ddatgan—

- (a) bras amcan o nifer y diwrnodau;
- (b) bras amcan o'i hyd ar bob diwrnod; ac
- (c) y rheswm y mae'n rhaid i'r perfformiad fod ar ffurf gwaith nos.

14. Y symiau sydd i'w hennill gan y plentyn drwy gymryd rhan yn y perfformiadau neu'r gweithgareddau y gofynnir am y drwydded mewn cysylltiad â hwy, ac enw, cyfeiriad a disgrifiad y person y mae'r symiau i'w talu iddo, os na fyddant yn cael eu talu i'r plentyn o dan sylw.

15. Pan ofynnir am drwydded mewn cysylltiad â pherfformiad, y trefniadau arfaethedig ar gyfer unrhyw ymarferion cyn y perfformiad cyntaf y gofynnir am y drwydded ar ei gyfer, gan ddatgan mewn cysylltiad â phob ymarfer—

- (a) y dyddiad;
- (b) y man lle y mae i'w gynnal; a
- (c) bras amcan o'r amser a'r hyd.

16. Y diwrnodau neu'r hanner diwrnodau y gofynnir am ganiatâd i'r plentyn fod yn absennol o'r ysgol arnynt i'w alluogi i gymryd rhan mewn perfformiadau (gan gynnwys ymarferion) neu weithgareddau y gofynnir am y drwydded ar eu cyfer.

17. Y trefniadau arfaethedig (os oes rhai) o dan reoliad 13 ar gyfer addysg y plentyn yn ystod y cyfnod y gofynnir am y drwydded ar ei gyfer, gan ddatgan—

- (a) pan fo'r addysg i'w darparu gan ysgol, enw a chyfeiriad yr ysgol sydd i'w mynychu; neu
- (b) pan fo'r addysg i'w darparu ac eithrio drwy gyfrwng ysgol—

10. Place of activities, performances and rehearsals for which the licence is requested, including any periods on location.

11. The dates of activities, performances or rehearsals for which the licence is requested, or the number of days, and the period during which, it is requested that the child may take part in activities, performances or rehearsals.

12. Expected total running time or duration of activities or performances (including any rehearsals) in respect of which a licence is requested and the approximate duration of the child's appearance in such performances or activities.

13. The amount of night-work (if any) for which approval is being sought from the licensing authority under regulation 30 stating—

- (a) the approximate number of days;
- (b) the approximate duration on each day; and
- (c) the reason that the performance must take the form of night-work.

14. The sums to be earned by the child in taking part in the performances or activities in respect of which the licence is requested, and the name, address and description of the person to whom or to which the sums are to be paid, if not to the child in question.

15. Where a licence is requested in respect of a performance, the proposed arrangements for any rehearsals prior to the first performance for which the licence is requested, stating in respect of each rehearsal—

- (a) the date;
- (b) the place; and
- (c) the approximate time and duration.

16. The days or half days on which leave of absence from school is requested to enable the child to take part in performances (including rehearsals) or activities for which the licence is requested.

17. Proposed arrangements (if any) under regulation 13 for the education of the child during the period for which the licence is requested stating—

- (a) where the education is to be provided by a school, the name and address of the school to be attended; or
- (b) where the education is to be provided otherwise than by a school—

- (i) enw, cyfeiriad a chymhwyster yr athro preifat arfaethedig neu'r athrawes breifat arfaethedig;
- (ii) y man lle y caiff y plentyn ei addysgu;
- (iii) y cwrs astudio arfaethedig;
- (iv) nifer y plant eraill sydd i'w haddysgu gan yr athro preifat neu'r athrawes breifat yr un pryd â'r plentyn y mae'r cais yn cael ei wneud mewn cysylltiad ag ef, a rhyw ac oedran pob plentyn; a
- (v) a yw'r plentyn i gael y cyfanswm o ran addysg sy'n unol â rheoliad 15(3)(d).

18. Enw a chyfeiriad yr hebryngwr arfaethedig, neu pan na fo'n ofynnol cael unrhyw hebryngwr o'r fath yn rhinwedd rheoliad 17(2), enw a chyfeiriad y rhiant neu'r athro neu'r athrawes a fydd â gofal dros y plentyn.

19. Enw'r awdurdod lleol neu, yn yr Alban, yr awdurdod addysg (os oes un), a gymeradwyodd gynt benodiad yr hebryngwr at ddibenion trwydded.

20. Nifer y plant sydd i fod yng ngofal yr hebryngwr yn ystod yr amser y bydd â gofal dros y plentyn y gwneir y cais mewn cysylltiad ag ef, a rhyw ac oedran pob plentyn.

21. Cyfeiriad unrhyw lety lle y bydd y plentyn yn byw os yw'n wahanol i'r man lle y byddai'r plentyn yn byw fel arfer, nifer y plant eraill, a manylion am yr hebryngwr (os oes un), a fydd yn byw yn yr un llety.

22. Bras amcan o hyd yr amser y bydd y plentyn yn ei dreulio yn teithio, a'r trefniadau (os oes rhai) ar gyfer cludiant—

- (a) i'r man lle y cynhelir y perfformiad, yr ymarfer neu'r gweithgaredd; a
- (b) o'r man lle y cynhelir y perfformiad, yr ymarfer neu'r gweithgaredd.

23. Enw unrhyw awdurdod lleol arall neu, yn yr Alban, unrhyw awdurdod addysg arall y mae cais wedi ei wneud iddo i blentyn arall gymryd rhan mewn perfformiadau neu weithgareddau y mae'r cais yn ymwneud ag ef (os nad yw'n hysbys adeg gwneud y cais, mae i'w ddarparu pan fo'n hysbys).

- (i) the name, address and qualification of the proposed private teacher;
- (ii) the place where the child will be taught;
- (iii) the proposed course of study;
- (iv) the number of other children to be taught by the private teacher at the same time as the child in respect of whom the application is made, and the sex and age of each child; and
- (v) whether the child is to receive the amount of education in accordance with regulation 15(3)(d).

18. The name and address of the proposed chaperone, or where no such chaperone is required by virtue of regulation 17(2), the name and address of the parent or teacher who will have care of the child.

19. The name of the local authority or, in Scotland, the education authority (if any), which has previously approved the appointment of the chaperone for the purposes of a licence.

20. The number of children to be in the charge of the chaperone during the time when the chaperone will be in charge of the child in respect of whom the application is made, and the sex and age of each child.

21. The address of any accommodation where the child will live if different from the place where the child would ordinarily live, the number of other children, and details of the chaperone (if any), who will live in the same accommodation.

22. Approximate length of time which the child will spend travelling, and the arrangements (if any) for transport—

- (a) to the place of performance, rehearsal or activity; and
- (b) from the place of performance, rehearsal or activity.

23. The name of any other local authority or, in Scotland, any education authority to which an application has been made for another child to take part in performances or activities to which the application relates (if not known at the time of application, to be provided when known).

RHAN 3

Y ddogfennaeth sy'n ofynnol

24. At ddibenion rheoliad 4(1)(d), y ddogfennaeth sy'n ofynnol yw—

PART 3

Required documentation

24. For the purposes of regulation 4(1)(d), the required documentation is—

- (a) copi o dystysgrif geni'r plentyn;
- (b) dau ffotograff union yr un fath o'r plentyn a dynnwyd yn ystod y chwe mis cyn dyddiad y cais;
- (c) copi o'r contract, y contract drafft neu ddogfennau eraill sy'n cynnwys manylion y cytundeb sy'n rheoleiddio ymddangosiad y plentyn yn y perfformiadau, neu'n rheoleiddio'r gweithgaredd, y gofynnir am y drwydded ar eu cyfer neu ar ei gyfer; a
- (d) y polisi (neu bolisiâu) amddiffyn plant ac unrhyw bolisiâu eraill a gymhwysir gan y ceisydd.

- (a) a copy of the birth certificate of the child;
- (b) two identical photographs of the child taken during the six months preceding the date of the application;
- (c) a copy of the contract, draft contract or other documents containing particulars of the agreement regulating the child's appearance in the performances or regulating the activity for which the licence is requested; and
- (d) the child protection policy (or policies) and any other policies that the applicant will apply.

ATODLEN 3 Rheoliad 11

Y Cofnodion sydd i'w Cadw gan y Deiliad Trwydded

RHAN 1

Y drwydded a roddir mewn cysylltiad â pherfformiad

1. Y drwydded.

2. Y manylion canlynol mewn cysylltiad â phob diwrnod y mae'r plentyn yn bresennol yn y man lle y cynhelir y perfformiad neu'r man lle y cynhelir yr ymarfer—

- (a) y dyddiad;
- (b) amser cyrraedd y man lle y cynhelir y perfformiad neu'r ymarfer;
- (c) amser ymadael â'r man lle y cynhelir y perfformiad neu'r ymarfer;
- (d) amserau pob cyfnod pryd y cymerodd y plentyn ran mewn perfformiad neu ymarfer;
- (e) amser pob ysbaid gorffwys;
- (f) amser pob ysbaid pryd bwyd; ac
- (g) amserau unrhyw waith nos a awdurdodwyd gan yr awdurdod trwyddedu o dan reoliad 30.

3. Pan fo trefniadau wedi eu gwneud i'r plentyn gael ei addysgu gan athro preifat neu athrawes breifat, dyddiad a hyd pob gwrs a'r pwnc a addysgir.

SCHEDULE 3 Regulation 11

Records To Be Kept By The Licence Holder

PART 1

Licence granted in respect of a performance

1. The licence.

2. The following particulars in respect of each day on which the child is present at the place of performance or place of rehearsal—

- (a) the date;
- (b) the time of arrival at the place of performance or rehearsal;
- (c) the time of departure from the place of performance or rehearsal;
- (d) the times of each period during which the child took part in a performance or rehearsal;
- (e) the time of each rest interval;
- (f) the time of each meal interval; and
- (g) the times of any night-work authorised by the licensing authority under regulation 30.

3. Where arrangements are made for the education of the child by a private teacher, the date and duration of each lesson and the subject taught.

4. Manylion yr anafiadau a'r afiechydon (os oes rhai) y bu'r plentyn yn dioddef ganddynt yn y man lle y cynhelir y perfformiad neu'r man lle y cynhelir yr ymarfer, gan gynnwys y dyddiadau pan ddigwyddodd yr anafiadau, gan ddatgan a wnaeth yr anafiadau neu'r afiechydon hynny atal y plentyn rhag bod yn bresennol yn y man lle y cynhelir y perfformiad neu'r man lle y cynhelir yr ymarfer.

5. Dyddiadau'r seibiannau mewn perfformiadau sy'n ofynnol o dan reoliad 29(1).

6. Swm yr holl arian a enillwyd gan y plentyn drwy gymryd rhan yn y perfformiad ac enwau, cyfeiriadau a disgrifiad y personau y talwyd y symiau hynny iddynt.

7. Pan fo'r awdurdod trwyddedu yn rhoi trwydded yn ddarostyngedig i'r amod bod rhaid ymdrin â'r symiau a enillir gan y plentyn mewn modd a gymeradwyir gan yr awdurdod, cyfanswm y symiau a'r modd yr ymdriniwyd â hwy.

RHAN 2

Trwydded a roddir mewn cysylltiad â gweithgaredd

8. Y cofnodion a bennir yn Rhan 1 fel petai'r rhan honno'n ymwneud â'r gweithgaredd y rhoddwyd y drwydded ar ei gyfer.

©[©]Hawlfraint y Goron 2015

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

4. Details of injuries and illnesses (if any) suffered by the child at the place of performance or place of rehearsal, including the dates on which such injuries occurred and stating whether such injuries or illnesses prevented the child from being present at the place of performance or place of rehearsal.

5. The dates of the breaks in performances required under regulation 29(1).

6. The amount of all monies earned by the child by reason of taking part in the performance and the names, addresses and description of the persons to whom such sums were paid.

7. Where the licensing authority grants a licence subject to the condition that sums earned by the child must be dealt with in a manner approved by it, the amount of the sums and the manner in which they have been dealt with.

PART 2

Licence granted in respect of an activity

8. The records specified in Part 1 as if that part concerned the activity for which the licence was granted.

© Crown copyright 2015

Printed and Published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

